Campus Services
Gwasanaethau'r Campws

Croeso i Neuadd Aberdâr

Casglu Allwedi

Mae'r dderbynfa ar agor rhwng 08:00 a 21:45, ddydd Llun i ddydd Gwener ac eithrio ar wyliau banc, a rhwng 9:00 a 21:45 ar benwythnosau. Bydd allweddi ar gael i'w casglu ar ôl 15.00. Os byddwch yn cyrraedd y tu allan i'r oriau hyn, cysylltwch â ni er mwyn gwneud trefniadau eraill. I'r rheini sydd wedi gwneud cynlluniau i gyrraedd yn hwyr cysylltwch â'r tîm Diogelwch drwy ffonio: +44 (0) 29 2087 4444.

Mae'r dderbynfa yn Neuadd Aberdâr, Heol Corbett, Caerdydd, CF10 3UP.
Ffôn: +44 (0)29 2087 6476.

Parcio

Does dim cyfleusterau parcio ar gael yn Neuadd Aberdâr.

Bydd y maes parcio yn **Rhodfa Colum**, taith gerdded o tua 3 munud o Neuadd Aberdâr, ar gael i westeion preswyl.
Y cyntaf i'r felin fydd hi wrth barcio ar y campws. Codir tâl am barcio.

Am fanylion ar sut i gadw lle ymlaen llaw a thalu am barcio, gweler Parcio i Breswylwyr
Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau, e-bostiwch conference@caerdydd.ac.uk

Sylwer: Does dim modd parcio ar Sgwâr y Frenhines Anne; mae'r rhodfa golofnog wrth ymyl Neuadd Aberdâr yn ffordd breifat ac yn gorfodi mesurau clampio llym yn erbyn parcio anghyfreithlon. Mae'r maes parcio agosaf ar Ffordd y Gogledd. Gweithredir system talebau talu ac arddangos Cyngor Caerdydd yma. CF10 3DY yw'r côd post.

Gwybodaeth Leol

Os byddwch yn teithio i Gaerdydd ar fws neu drên, mae'n cymryd tua 25 munud i gerdded o orsaf Caerdydd Canolog i Neuadd Aberdâr. Cathays yw'r orsaf agosaf, ac mae'n cymryd tua 10 munud i gerdded oddi yno i'r neuadd. Fel arall, bydd tacsi o ganol y ddinas yn costio tua £5.00-£10.00, gan ddibynnu ar y pellter. Cofiwch, gallai'r gost amrywio yn ddibynnol ar lif y traffig.

Cewch wybodaeth am deithio ar fysiau drwy glicio'r ddolen ganlynol: Bws Caerdydd

Ar yr M4 o'r Gorllewin

- Gadewch yr M4 wrth gyffordd 32 a dilynwch arwyddion yr A470 tuag at Gaerdydd.
- Rhybudd: Mae camerâu cyflymder ar hyd yr A470
- Wrth i chi agosáu at ganol y ddinas, byddwch yn cyrraedd Cyfnewidfa/Trosffordd Gabalfa
- Ewch drosti i Heol y Gogledd (yr A470 o hyd)
- Ar ôl tua milltir bydd y ffordd yn ymrannu. Ewch ar y ffordd i'r dde a mynd yn eich blaen ar hyd Heol y Gogledd. Wrth yr ail set o oleuadau traffig, trowch i'r chwith ar Heol Corbett
- Bydd Neuadd Aberdâr ar y chwith (Rhif 60)

Ar yr M4 o'r Dwyrain

- Gadewch yr M4 ar Gyffordd 29 (dilynwch arwyddion Dwyrain a De Caerdydd), cyn ymuno â thrafffordd yr A48(M)
- Pan ddaw'r drafffordd i ben, ewch yn eich blaen ar yr A48. Wrth ddod i mewn i Gaerdydd, ewch yn syth ymlaen (dilynwch arwyddion Canol y Ddinas)
- Rhybudd: Mae camerâu cyflymder ar hyd yr A48
- Arhoswch yn y lôn chwith (dilynwch arwyddion Canol y Ddinas A470), yna ewch oddi ar y gylchfan ar yr ail ffordd ymadael i gyfeiriad Heol y Gogledd
- Ewch yn eich blaen, cyn ymuno â Heol y Gogledd - A470
- Rhybudd: Mae camerâu cyflymder ar hyd yr A470
- Ar ôl tua milltir bydd y ffordd yn ymrannu. Ewch ar y ffordd i'r dde a mynd yn eich blaen ar hyd Heol y Gogledd. Wrth yr ail set o oleuadau traffig, trowch i'r chwith ar Heol Corbett
- Bydd Neuadd Aberdâr ar y chwith (Rhif 60)

Campus Services
Gwasanaethau'r Campws

Cewch hyd i'r wybodaeth yma ar y gwefannau canlynol hefyd (CF10 3UP yw'r côd post ar gyfer eich SatNav):
This information can also be found via the following websites (SatNav postcode is CF10 3UP):

www.rac.co.uk/route-planner
www.theaa.com/travelwatch/planner_main.jsp

Neuadd Aberdâr Cyfeirnod map 60
Aberdare Hall Map ref 60